Gwybyddiaeth a Dysgu

| Teitl y Cwrs | Disgrifiad | Dull Cyflwyno | Cynulleidfa Darged | Dyddiadau'r Gweithdai | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf |
| Literacy Launch Pad | Pedwar diwrnod, ynghyd â diwrnod hyfforddi canolog<br>Bydd y cwrs yma'n cynnwys cyfuniad o sesiynau a fydd yn cael eu cynnal yn ganolog, ynghyd â sesiynau mentora ac arfarnu yn yr ysgol dros gyfnod o oddeutu 4–5 mis. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn tystysgrif cyrhaeddiad y mae'r awdurdod lleol yn ei chydnabod.<br>Nod y cwrs:<br>Sicrhau bod y sawl sy'n dod i'r hyfforddiant yn teimlo'n hyderus i ddarparu ymyrraeth llythrennedd effeithiol i ddisgyblion yng nghamau 'Gweithredu gan yr Ysgol' a 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' y Cod Ymarfer AAA.<br>Darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut i weinyddu a dehongli asesiadau llythrennedd diagnostig.<br>Galluogi'r sawl sy'n bresennol i gynllunio targedau a nodau dysgu priodol, yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau diagnostig.<br>Dysgu sut i gynllunio a strwythuro sesiynau ymyrraeth llythrennedd wedi'u teilwra'n effeithiol mewn grŵp ac un i un.<br>Profi dull ymarferol o ddarganfod ystod eang o strategaethau ac adnoddau aml-synhwyraidd ar gyfer dysgu.<br>Mae disgwyl i'r sawl sydd ar y cwrs weithio gyda grŵp o ddisgyblion trwy gydol cyfnod y cwrs.<br>Rhaid bod yn bresennol am y pedwar dyddiad ac ar gyfer yr hyfforddiant canolog.<br>Mae disgwyl i'r sawl sydd ar y cwrs gynnal asesiadau a gosod targedau ar gyfer disgyblion rhwng diwrnod 1, diwrnod 2 a diwrnod 3.<br>Mae modd trefnu ymweliadau ac adnoddau cymorth yn Gymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. | Wyneb yn wyneb | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 26/09/2023 yn y bore<br>03/10/2023 yn y bore<br>24/10/2023 diwrnod llawn<br><br>Sesiwn Gymraeg 23/04/2024 | 30/01/2024 yn y bore<br>06/02/2024 yn y bore<br>27/02/2024 diwrnod llawn<br><br>Sesiwn Gymraeg 23/04/2024 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Modiwl Llythrennedd | Trosolwg o asesiadau a strategaethau llythrennedd gan gynnwys y rheiny sy'n cael eu defnyddio yn 'Literacy Launch Pad' i gynorthwyo plant ag anawsterau llythrennedd. | MS Teams | Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Dosbarth | 26/10/2023 | | 11/04/2024 |
| Anghenion Dysgu cymhleth yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd | Nod y cwrs hanner diwrnod yma bydd codi ymwybyddiaeth o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu cymhleth yn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd. Bydd yn cynnig:<br>• Dealltwriaeth o anawsterau dysgu cymhleth ynghyd â strategaethau cymorth ac adnoddau priodol ar gyfer dosbarthiadau prif ffrwd<br>• Dealltwriaeth o'r materion cymdeithasol ac emosiynol cysylltiedig | Wyneb yn wyneb | Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Dosbarth, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 09/11/2023 Saesneg | 08/02/2024 Cymraeg | 18/04/2024 Saesneg |
| POPAT – cyfrwng Cymraeg | Rhan un: Rhaglen addysgu strwythuredig, ddatblygiadol, ddilyniannol sy'n helpu i feithrin sgiliau llythrennedd drwy alluogi disgyblion i adnabod a thrin synau mewn geiriau cyn cyflwyno llythrennau.<br>Wrth ei defnyddio gyda'r dosbarth cyfan o'r Dosbarth Meithrin/Derbyn ymlaen, mae modd nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael anawsterau llythrennedd ac mae'n darparu strategaethau ar gyfer lleihau'r perygl hwnnw.<br>Mae modd ei defnyddio mewn ffordd ddiagnostig fel rhaglen ymyrraeth ar gyfer disgyblion hŷn (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2) sydd eisoes yn cael anawsterau llythrennedd, ac mae modd i'r rhaglen fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer pennu targedau priodol.<br>Rhan dau: Dull strwythuredig o fynd i'r afael â'r geiriau mwyaf cyffredin a rheolau sillafu. | Wyneb yn wyneb | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 23/10/2023 Diwrnod 1 a 11/12/2023 Diwrnod 2 | 11/03/2024 Diwrnod 1 a 29/04/2024 Diwrnod 2 | |
| POPAT – Cyfrwng Saesneg | | Wyneb yn wyneb | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 09/10/2023 Diwrnod 1 a 27/11/2023 Diwrnod 2 | | 13/05/2024 Diwrnod 1 a 24/06/2024 Diwrnod 2 |
| Rhaglen Sylfaen POPAT | Bydd yn sicrhau bod modd i blant ddeall a defnyddio symbolau, a'u paratoi ar gyfer y POPAT Safonol, neu unrhyw raglen llythrennedd gynnar arall. Bydd Sylfaen POPAT yn helpu i ddatblygu dull integredig o reoli sylw. | Wyneb yn wyneb | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | Cymraeg 04/12/2023 yn y bore | Saesneg 29/01/2024 | Saesneg 15/04/2024 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaethau sy'n addas i ddisgyblion â dyslecsia mewn dosbarthiadau prif ffrwd | Bydd y sawl sy'n bresennol ar y cwrs yn cael cyflwyniad i amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau y mae modd eu defnyddio i feithrin sgiliau darllen disgyblion â dyslecsia/ anawsterau llythrennedd yn y dosbarth prif ffrwd. | MS Teams | Athrawon, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 23/11/2023 | | 13/06/2024 |
| Pecyn Llythrennedd Gweithredol | Cyflwyniad cam wrth gam i ddefnyddio'r Pecyn Llythrennedd Gweithredol. Mae'r pecyn yn darparu cyfres o ymarferion wedi'u hamseru sy'n meithrin y sgiliau sylfaenol angenrheidiol ar gyfer darllen a sillafu awtomatig, rhugl a chywir. Mae plant yn cwblhau gweithgareddau wedi'u strwythuro'n ofalus yn seiliedig ar ganlyniadau prawf lleoliad diagnostig. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwybodaeth am yr wyddor, enw a sain llythrennau, odl a chyflythreniad a darllen a sillafu sylfaenol.<br>Ar gyfer grwpiau oedran 5+ (CA2, CA3, CA4). | Wyneb yn wyneb | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 16/11/2023 | | 16/04/2024 |
| DEST-2 / Llythrennedd Ymarferol | Mae Llythrennedd Ymarferol yn adnodd sgrinio ac ymyrraeth sy'n nodi plant yn y cyfnod sylfaen sy'n wynebu perygl o feithrin sgiliau llythrennedd gwan yn gynnar, ac yn darparu ymyrraeth effeithiol ar gyfer y disgyblion yma.<br>Atgoffa disgyblion sut i ddefnyddio'r DEST-2 i asesu a chynllunio ymyrraeth ar gyfer plant yn y dosbarth derbyn sydd mewn perygl o fod ag anawsterau llythrennedd. | MS Teams | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | | 23/02/2024 | |
| Strategaethau Ysgrifennu | Mae'r cwrs hyfforddi yma'n ceisio rhoi trosolwg i'r mynychwyr o'r amrywiaeth o anawsterau all disgyblion eu hwynebu gydag ysgrifennu. Byddwn ni'n trafod pa strategaethau y mae modd i ni eu defnyddio er mwyn cynorthwyo disgyblion ag anawsterau ysgrifennu yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol a'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol. | Wyneb yn wyneb | Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Dosbarth, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | | | I'w gadarnhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaethau dyscalcwlia i gynorthwyo disgyblion ag anawsterau mathemateg | Bydd y cwrs hyfforddi'n ceisio rhoi trosolwg i fynychwyr o beth yw dyscalcwlia a sut i'w adnabod. Byddwn ni'n trafod beth y mae modd i ni ei wneud er mwyn cynorthwyo disgyblion â dyscalcwlia gydag anawsterau mathemateg. Byddwn ni'n rhoi cyflwyniad i'r strategaethau ac ymyraethau cymorth y mae modd eu rhoi ar waith yn y dosbarth yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol. | Wyneb yn wyneb | Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Athrawon Dosbarth, Cynorthwywyr Cymorth Dysgu | 19/10/2023 | 14/03/2024 | 20/06/2024 |